# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 01/12/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Swyddi Llywodraeth Leol

***8. Leanne Wood:*** *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog yng nghyswllt swyddi llywodraeth leol. OAQ(3)1415(SJL)*

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant):** Mae awdurdodau lleol wrthi'n pennu cyllideb 2011-12, a byddant yn ystyried y goblygiadau ar gyfer y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar eu gweithluoedd. Yr wyf yn disgwyl i awdurdodau reoli niferoedd eu staff drwy wastraff naturiol; rheoli swyddi gwag; a diswyddiadau gwirfoddol lle bo'n bosibl.

### Cydweithio

***9. David Lloyd:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu cydweithio o fewn awdurdodau lleol. OAQ(3)1454(SJL)*

**Carl Sargeant:** Yr wyf yn sicr bod angen mwy o gydweithredu mewn a rhwng awdurdodau lleol lle bydd hyn yn arbed arian ac yn gwella gwasanaethau. Bydd fy adolygiad o'r lle gorau i ddarparu gwasanaethau penodol yn helpu i ddatblygu dull mwy strategol o wneud hynny.

### Tegwch y Dreth Gyngor

***10. Peter Black:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am degwch y dreth gyngor. OAQ(3)1430(SJL)*

**Carl Sargeant:** Ar gyfartaledd, mae'r dreth gyngor yng Nghymru 20 y cant yn is nag yn Lloegr. Mae'r setliad a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn cynnwys cyllid i alluogi awdurdodau yng Nghymru i rewi'r dreth gyngor os dymunant, ar yr amod eu bod yn gallu parhau i gynnal gwasanaethau allweddol i'w dinasyddion ar ôl y rhewi.

### Trais Domestig

***11. Helen Mary Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau cefnogi sydd ar gael ar gyfer menywod sy'n ddioddefwyr trais domestig a'u plant. OAQ(3)1410(SJL)*

**Carl Sargeant:** Pan ddechreuais yn fy swydd fel Gweinidog, rhoddais gydnabyddiaeth i'r maes polisi allweddol hwn a rhoddais £1 miliwn ychwanegol i ddarparu rhagor o wasanaethau cymorth i fenywod sy'n ddioddefwyr trais domestig a'u plant.

*Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(3)1424(SJL), yn ôl*

### Blaenoriaethau

***13. Veronica German:*** *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer llywodraeth leol dros y 12 mis nesaf. OAQ(3)1439(SJL)*

**Carl Sargeant:** Fy mlaenoriaethau yw gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i gefnogi awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau rheng flaen yn ystod y cyfnod economaidd heriol hwn a chryfhau strwythurau a dulliau gweithredu llywodraeth leol yng Nghymru drwy roi'r Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol ar  waith.

### Effaith y Gyllideb Ddrafft

***14. Nick Bourne:*** *Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith y gyllideb ddrafft ar lywodraeth leol. OAQ(3)1409(SJL)*

**Carl Sargeant:** Un o brif flaenoriaethau cyllideb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad yn ystod cyfnod o gyfyngder ariannol yw rhoi setliad teg a chyfiawn i lywodraeth leol. Bydd y setliad dros dro a gyhoeddais yn golygu y bydd awdurdodau lleol yn cael 0.1 y cant yn fwy dros y tair blynedd nesaf i ariannu gwasanaethau allweddol.

### Trais Domestig

***15. Lynne Neagle*****:** *A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am fentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru i frwydro yn erbyn trais domestig yng Nghymru. OAQ(3)1423(SJL)*

**Carl Sargeant:** Ym mis Mawrth 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', strategaeth chwe blynedd y fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod. Paratowyd cynllun gweithredu 2010-13 i helpu i gyflenwi'r strategaeth hon a'r strategaeth cam-drin domestig gyfredol, 'Mynd i'r afael â Cham-drin yn y cartref: dull Partneriaeth'.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Darparieth Addysg Bellach

***11. Leanne Wood:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth Addysg Bellach yng Nghymru. OAQ(3)1598(CEL)*

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):** Er gwaethaf setliad heriol, byddwn yn blaenoriaethu hyfforddiant sgiliau, anrhydeddu'n hymrwymiad i Lwybrau at Brentisiaethau a pharhau i ganolbwyntio ar fentrau ymgysylltu a chyflogaeth i bobl ifanc. Mae'n rhaid i ddarparwyr gydweithio i wneud y defnydd gorau o adnoddau a chreu syniadau arloesol i ddarparu addysg a sicrhau bod arian yn cyrraedd y rheng flaen.

### Cyllido Ysgolion

***12. Lynne Neagle:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido ysgolion yng Nghymru. OAQ(3)1568(CEL)*

**Leighton Andrews:** Mae cyllid ysgolion 76 y cant yn uwch ers 1999-2000 ac mae'r gwariant

fesul disgybl 89 y cant yn uwch. Dylid rhoi'r ffigurau hyn yng nghyd-destun llai o ddisgyblion ac ysgolion.

### Darpariaeth Addysgol Drawsffiniol

***13.Mark Isherwood:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysgol drawsffiniol. OAQ(3)1588(CEL)*

**Leighton Andrews:** Ers amser hir, mae disgyblion wedi symud rhwng awdurdodau lleol ar ddwy ochr y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Gall hyn gynnig darpariaeth addysg fwy amrywiol i ddisgyblion, a lle mae hynny'n digwydd, dylid ei groesawu.

*Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ(3)1574(CEL), yn ôl*

### Ieithoedd Modern

***15. Gareth Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddysgu ieithoedd modern yn y sector Addysg Uwch. OAQ(3)1603(CEL)*

**Leighton Andrews:** Yr ydym yn cymryd amrywiaeth o gamau i annog pobl i ddilyn ieithoedd tramor modern a chefnogi'r ddarpariaeth mewn ysgolion, colegau a sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, a soniais am y mater hwn yn fy llythyr cylch gorchwyl i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.